Cenn@d

MEHEFIN 9 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 15

# Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn?

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried sefyllfa argyfyngus ein heglwysi mewn perthynas ag ymestyn allan i blant ac ieuenctid Cymru. Bellach, nid oes gan dros 95% o blant Cymru unrhyw gysylltiad â'r ffydd Gristnogol. Ar ben hyn, mae effaith pandemig Covid-19 ar waith plant ac ieuenctid mewn ysgolion Sul, clybiau plant a gwasanaethau teulu wedi dwysáu'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy fyth.



Yn ystod y 15 mis diwethaf gwelwyd llu o eglwysi a chynulleidfaoedd yn ymgynnull yn rheolaidd ac yn gyson i gynnal oedfa, cyfarfod gweddi, seiat ac ambell ddosbarth astudiaeth Feiblaidd a chymdeithas lenyddol. Yn rhyfeddol, gwelwyd niferoedd da o selogion ein heglwysi'n cofleidio'r dechnoleg newydd, ac yn darganfod byd 'newydd' Facebook Live, sianel YouTube a chyfrwng cyfarfod yn fyw dros Zoom am y tro cyntaf. Gwelwyd sawl gofalaeth yn tystio bod nifer yr addolwyr ar 'Sul rhithiol' yn fwy na'r hyn ydoedd yn y capel cyn y pandemig.

Bellach mae'n bosib i rai sy'n gaeth i'w haelwydydd, neu sy'n byw gryn bellter o'r capel, neu hyd yn oed y rhai nad oes ganddynt amser i ymrwymo i fore cyfan o wisgo a pharatoi, teithio ac eistedd am awr yn y capel, ymuno mewn gwasanaeth. Roedd troi i mewn dros baned am hanner awr yn rhywbeth roeddent yn falch o fod yn medru ei wneud.

Yn naturiol, bu i rai gael eu heithrio, ac mae hynny'n ofid. Er rhannu gwasanaethau papur ayyb, tydi hynny ddim i'w gymharu ag ymuno â chynulleidfa fyw ar fore Sul. Cael 'gweld' y gynulleidfa a'u cyfarch yn swnllyd cyn dechrau'r oedfa, a'r cyfle i ymateb â gwên neu wg i'r hyn roeddent yn ei glywed gan y pregethwr.

Ond diolch am y dechnoleg ryfeddol hon, a mawr obeithiwn y gwelwn fodel hybrid yn cael ei fabwysiadu gan ein heglwysi, lle mae'r dechnoleg yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â chyfarfodydd yn y capel.

## Ond beth am y plant?

Sut flwyddyn fu hi yn hanes yr ysgolion Sul ac addoliad teuluol? Mae sawl athro ac arweinydd wedi rhannu o'u profiad nhw, gan ddweud mor anodd fu ceisio cynnal momentwm gyda phlant ac ieuenctid yn ystod y 15 mis diwethaf.

Do, fe aeth sawl cylch o eglwysi ati i fentro cynnal ysgol Sul ar Zoom. Bu sawl cylch yn rhannu gwersi drwy'r drws neu'r post yn wythnosol, a bu rhai'n ceisio cyfarfod mewn parc pan oedd yn bosib gwneud hynny. Diolch am bob ymgais i ymestyn allan a chynnal aelwydydd lle mae yna blant ac ieuenctid. Bu arweinwyr hefyd yn ffonio rhieni, ac yn ceisio cynnig cymorth ymarferol lle bynnag roedd hynny'n bosib.

Ond yr hyn a glywir yn gyson dro ar ôl tro yw mai anodd fu cynnal y bwrlwm a phrofiad Ysgol Sul / Clwb Plant arferol dros y cyfnod hwn. Do, gwelwyd colli bod mewn festri yn rhannu gemau a chrefft, actio wrth ddweud stori a gosod ambell her. Mewn gwirionedd, daeth y model hwn i stop yn llwyr am gryn gyfnod, ac erbyn hyn mae yna bryder ynghylch y dyfodol a'r broses o ailddechrau.

Mae sawl arweinydd ysgol Sul eisoes wedi dweud na fyddan nhw'n ailddechrau'r ysgol Sul, gan eu bod yn teimlo bod gwasanaethu am 60 mlynedd a throsodd yn ddigon ynddo'i hun – ond does neb arall yn barod i gydio yn yr awenau. Teg yw dweud nad y pandemig sy'n bennaf cyfrifol am ddiflaniad cynifer o'n hysgolion Sul, ond y ffaith fod dwy genhedlaeth – os nad tair – ar goll o lawer o'n heglwysi bellach. Diolch am yr eglwysi sydd wedi llwyddo i gadw'r cenedlaethau hynny, gan wneud y gwaith o gyrraedd allan at bob oed yn gymaint haws.

Ond, yn anffodus, eithriadau yw'r eglwysi hynny, a golygfa lawer iawn mwy cyffredin y dyddiau hyn yw cynulleidfaoedd lle mae bron pawb yn y gynulleidfa dros 70 oed. Patrwm cyffredin iawn erbyn hyn yw gweld ysgolion Sul yn dirwyn i ben am nad yw'r arweinwyr ar gael o fewn yr eglwys. Er bod y pandemig wedi dwysáu'r sefyllfa, y gwir amdani yw fod hon wedi bod yn broblem ers dros 25 mlynedd.

Problem arall yw'r sefyllfaoedd hynny lle mae uned yr ysgol Sul yn bodoli fel endid hollol ar wahân i fywyd yr eglwys, a

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

**Pennod newydd yn hanes *Cristion*** Tudalen 4

**Medalau Gee** Tudalen 5

**Eisteddfod Rithiol Cenn@d** Tudalen 7

# Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn?



*(parhad o dudalen 1)*

does dim cysylltiad rhwng y ddwy gynulleidfa, heblaw am wasanaeth Nadolig a Diolchgarwch. Mae'n debyg y bydd llawer o eglwysi ac ysgolion Sul yn gorfod trafod o ddifri dros y misoedd nesaf beth fydd ffurf eu gweinidogaeth i blant, ieuenctid a theuluoedd o fis Medi ymlaen.

Dylid nodi hefyd nad problem Gymreig yn unig yw hon. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Rwydwaith Gwaith Plant ac Ieuenctid Cristnogol Prydain Fawr, datgelwyd bod nifer y gweithwyr plant sy'n gweithio mewn eglwysi wedi disgyn yn sylweddol dros y degawd diwethaf, a bod nifer y rhai sy'n hyfforddi i weithio yn y maes yma wedi mwy na haneru yn ystod yr un cyfnod. Yn 2010 roedd 670 o fyfyrwyr yn derbyn hyfforddiant i fod yn weithwyr ieuenctid mewn eglwysi. Ond erbyn 2020 roedd y ffigwr wedi disgyn i 310 o fyfyrwyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd y diffyg cyfleoedd a swyddi sy'n dod ar gael.

Meddai Rachel Gardner, un o'r rhai sy'n cydlynu'r hyfforddiant hwn, 'Hyd yn oed cyn Covid-19, roedd nifer y plant a'r ieuenctid a oedd yn mynychu gwasanaethau eglwysig yn ein gwlad yn gostwng yn sylweddol. Ond ar ôl blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, dydw i ddim yn credu mai'r ateb yw i ni fynd yn ôl i'r hen ffordd o wneud pethau. Nid ailddechrau'r hyn roeddem yn ei wneud cynt yw'r ateb bellach, ond yn hytrach mae'n rhaid i ni ganfod ffyrdd newydd a ffres o gyflwyno'r ffydd i'n plant.'

### Y 95% sydd ar goll

Y gwir amdani ydi nad oes gan 95% o blant Cymru bellach unrhyw gysylltiad ag eglwys na chapel nag ysgol Sul. Mae ystadegau bedydd yr enwadau'n gostwng yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, a nifer cynyddol o rieni ifanc yn disgrifio'u hunain fel 'digrefydd'. Erbyn hyn mae bron i 75% o bobl o dan 30 oed yn nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw grefydd na chred o gwbl. Gwnaed yr asesiad hwn cyn dyfodiad Covid-19, a achosodd i'n ffyrdd arferol o drefnu gwaith plant ac ieuenctid ddod i ben.



Symudodd rhai o'n gweinidogaethau, fel yr ysgol Sul a chlwb ieuenctid canol wythnos, i fod ar-lein. Ond daeth pethau fel Llan Llanast, clybiau plant ar ôl ysgol, clybiau gwyliau, clybiau Ti a Fi i rieni a phlant ifanc, i stop, a hynny am gyfnod o 18 mis. Ni fu gwersylloedd Cristnogol yng Ngholeg y Bala, na diwrnodau chwaraeon na thripiau ysgol Sul.

Mewn sawl achos, nid mater o ailgychwyn fydd hi, ond mater o ailsefydlu, ailrecriwtio, ailhyfforddi staff a gwirfoddolwyr, chwilio eto am y plant rydym wedi colli cyswllt â nhw erbyn hyn. Meddai un gweithiwr ieuenctid mewn eglwys yn ddiweddar, 'Pan ddechreuon ni fynd i gyfnod clo fis Mawrth diwethaf, roeddwn i'n cymryd y byddai'r weinidogaeth i'r ieuenctid yn parhau'n ddidrafferth. Wedi'r cyfan, hon oedd y genhedlaeth Wi-fi yn eich poced. Roeddwn wedi tybied byddai pobl ifanc yn hollol barod am hyn ac yn hyderus i fynd ar-lein. Ond allwn i ddim fod wedi bod yn fwy anghywir. Wrth edrych yn ôl dros 12 mis, rwy'n gweld ieuenctid sydd wedi diflannu o'n gafael, a bydd yn her enfawr i ailgysylltu â nhw.'

Os mai dyma brofiad gweithiwr ieuenctid cyflogedig sydd wedi'i hyfforddi ar gyfer y swydd, ble mae hynny'n ein gadael ni? Un sylw diddorol a wnaeth yntau oedd nodi mai'r criw cyntaf i ddiflannu o'r clybiau ieuenctid o dan ei ofal oedd y rhai hynny nad oedd ganddynt gysylltiad na gwreiddiau yn yr eglwys. Meddai, 'Yn fy marn i, mae cael "rhieni" a "mentoriaid" ysbrydol yn llawer iawn pwysicach na chael "rhaglenni" ysbrydol. Nid cyflwyno ffeithiau a gwybodaeth mewn rhaglenni slic sy'n bwysig, ond dangos ffydd ar waith yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Dangos Iesu ar waith yn ein bywydau ni, yn hytrach na chyflwyno Iesu fel ffigwr hanesyddol mewn hanes i'w efelychu.'

### Cynllun newydd ar gyfer plant Cymru

Yma yng Nghymru bydd llawer o eglwysi, gobeithio, yn ceisio meddwl am ffyrdd o adfer ac adeiladu ar yr hyn a fu. Mae i'r ysgol Sul draddodiad cryf sy'n mynd yn ôl dros 225 mlynedd, a thros y cyfnod hwnnw gwelwyd sawl trai a llanw.

Ond, beth am y cyfnod newydd, ôl-bandemig?

- A oes gennym gynllun a strategaeth ar gyfer cyflwyno'r newyddion da am Iesu i genhedlaeth newydd o blant?
- A yw hwn yn rhywbeth sy'n cael ei drafod gan yr eglwys gyfan neu'n cael ei adael i griw o rieni sy'n awyddus i gael rhyw fath o ddarpariaeth ar gyfer eu plant?
- A yw'r eglwys yn barod i 'fuddsoddi' yn y genhadaeth hon?
- Oes 'na barodrwydd i fentro i fyd newydd?
- Oes yna awydd i gydweithio yn lleol ac ar draws ffiniau enwadol er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau bosib?

Gobeithio y bydd trafodaeth ddeallus ac agored ar y cwestiynau hyn.

Beth all eglwysi lleol wneud yn y cyfnod dyrys hwn, felly?

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d* ceir nifer o syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i gynllunio ar gyfer y cyfnod newydd hwn …